



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



**Mae Brechu yn achub bywydau**  
**Vaccination saves lives**

**Cam 3**

**Strategaeth Frechu COVID-19**  
**ar gyfer Hydref/Gaeaf 2021**

**Hydref 2021**



**DIOGELU CYMRU**  
**KEEP WALES SAFE**



## Cynnwys

---

**3** ADRAN 1 – Rhagair y Gweinidog

---

**4** ADRAN 2 – Trosolwg a hynt ein gwaith hyd yma

---

**6** ADRAN 3 – Ein blaenoriaethau ar gyfer yr hydref a'r gaeaf

---

**12** ADRAN 4 – Seilwaith – ble a sut mae cael eich brechu

---

**13** ADRAN 5 – Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen frechu

---

## ADRAN 1 – Rhagair y Gweinidog

Hoffwn yn gyntaf gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bobl Cymru am weithio gyda'i gilydd yn ein brwydr yn erbyn y Coronafeirws. Mae hyn yn cynnwys y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen, gweithwyr allweddol a gwirfoddolwyr sydd wedi chwarae eu rhan i arwain y wlad drwy gyfnod mor heriol.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r rhai a ddaeth i gael eu brechu, gan eu diogelu eu hunain, eu teulu, eu ffrindiau a'u cymdogion.

Rwy'n sylweddoli'r hyn y mae pobl wedi'i aberthu a'r colledion y maent wedi'u hwynebu.

Mae'r brechlyn wedi gwneud gwahaniaeth mawr ac mae'r ffaith bod cynifer o bobl ar draws pob ystod oedran wedi cael eu brechu wedi cyfrannu at lacio'r cyfyngiadau.

Mae'r strategaeth hon yn ymwneud â sut y byddwn yn symud ymlaen gan ddiogelu pawb, a sut y gall brechu barhau i chwarae rhan hollbwysig. Mae'n nodi sut y bydd y rhaglen frechu yn parhau i gyflawni mewn modd effeithiol, effeithlon a chyflym yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf.

Rydym yn parhau i ddilyn y dystiolaeth glinigol a'r dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf. Mae cyngor gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu a Phrif Swyddog Meddygol Cymru wedi rhoi arweiniad inni yn ystod y pandemig ac mae eu cyngor wedi bod yn gywir ac yn gymesur ar hyd yr amser. Rydym eto yn gofyn iddynt am eu cyngor wrth inni symud i gam nesaf byw gyda'r feirws.

Yn unol â chyngor ar sut mae cynnal y lefelau uchaf o ddiogelwch, bydd y bobl sy'n wynebu'r risg mwyaf o ddal y coronafeirws a datblygu salwch difrifol yn cael y brechlyn atgyfnerthu gyntaf. Mae'r byrddau iechyd wedi bod yn cynllunio drwy'r haf. Mae hyn wedi caniatáu iddynt symud yn gyflym ac rydym eisoes wedi dechrau brechu staff gofal iechyd, preswylwyr a staff cartrefi gofal, a'r rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf yn sgil y coronafeirws.

Mae'r byrddau iechyd hefyd wedi gwneud cynnydd da o ran brechu pobl ifanc 16 ac 17 oed, yn ogystal â'r bobl ifanc 12 i 15 oed sy'n wynebu'r perygl mwyaf oherwydd cyflyrau iechyd sydd ganddynt eisoes.

Rydym yn ddiweddar wedi dechrau cynnig dos cyntaf i bobl ifanc 12-15 oed ac rydym yn annog pobl ifanc i ymweld â gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru [www.icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/gwybodaeth-brechlyn-covid-19/gwybodaeth-i-gleifion/brechu-covid-19-canllaw-i-blant-a-phobl-ifanc/](http://www.icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/gwybodaeth-brechlyn-covid-19/gwybodaeth-i-gleifion/brechu-covid-19-canllaw-i-blant-a-phobl-ifanc/) i gael rhagor o wybodaeth. Rydym hefyd yn annog pob un ohonynt i drafod cael y brechlyn gyda'u teulu neu oedolyn y maent yn ymddiried ynddo.

Mae'r hydref a'r gaeaf yn gyfnod heriol i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae'r sefyllfa yng Nghymru yn parhau i beri pryder, gydag achosion COVID-19 yn uchel o hyd. Er mwyn llwyddo i gyflawni cam nesaf y rhaglen, bydd angen dull hyblyg eto er mwyn ymateb i gymhlethdodau cynyddol y carfanau brechu. Bydd angen i'r GIG ymateb yn brydlon ac yn effeithiol, fel y mae wedi'i wneud drwy gydol y pandemig. Mae wedi dangos bod ganddo'r hyblygrwydd a'r gweithlu hynod fedrus a phrofiadol sy'n ofynnol er mwyn parhau i gyflawni ein rhaglen frechu yn llwyddiannus.

Yr unig ffordd y bydd hyn yn bosibl yw drwy barhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid allweddol – llywodraeth leol, gwasanaethau cyhoeddus eraill, busnesau, y sector gwirfoddol a gwirfoddolwyr. Mae'r ymdrech aml-asiantaeth hon yn parhau ac mae'r raddfa gyflawni yn cynyddu drwy'r amser fel y gallwn ddiogelu mwy o'n poblogaeth bob diwrnod.

Os na wnaethoch dderbyn y brechlyn y tro cyntaf ond yr hoffech wneud hynny yn awr, edrychwch ar wefan eich bwrdd iechyd lleol i gael cyngor.

Fel arall, yr un yw ein neges; peidiwch â chysylltu â byrddau iechyd, meddygon teulu, fferyllwyr nac awdurdodau lleol i wneud apwyntiad am frechiad COVID-19. Bydd rhywun yn cysylltu â chi pan ddaw eich cyfle.

Mae'r cam newydd hwn yn rhoi gobaithe i bawb. Byddwn yn symud ymlaen gyda'n gilydd a byddwn eto yn gallu mwynhau'r rhyddid yr ydym wedi gweld ei gollu. Diolch i bawb sy'n rhoi ac yn cymryd y brechlynnau hanfodol hyn.

### Eluned Morgan AS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## ADRAN 2 – Trosolwg a hynt ein gwaith hyd yma

Wrth inni symud i'r hydref a'r gaeaf, mae'r Strategaeth hon yn ein harwain i Gam nesaf y rhaglen frechu COVID-19. Mae'n nodi ein cynlluniau ar gyfer parhau i ddiogelu ein trigolion hŷn a'r rhai mwy agored i niwed, yn ogystal â'n cynlluniau i gynnig dos cyntaf ac ail ddos i'r rhai nad ydynt wedi'u brechu eto. Rydym hefyd yn cynnig brechlyn i'n plant a'n pobl ifanc 12 oed a hŷn, gan barhau i sicrhau bod unrhyw un sydd heb ddod i gael ei frechu eto yn cael y cyfle i wneud hynny unrhyw adeg.

Mae brechu yn cael effaith uniongyrchol er budd y rhai sy'n cael eu brechu, ac yn cael effaith anuniongyrchol er budd y boblogaeth ehangach. Wrth i fwy o bobl gael eu brechu, rydym yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn dod i gysylltiad â rhywun sydd wedi'i heintio. Felly, gallai effaith gyffredinol y rhaglen frechu estyn y tu hwnt i'r hyn a ragwelwyd drwy ddadansoddiadau o effeithiolrwydd brechu.

Mae data ar effeithiolrwydd gwirioneddol wedi dangos yn gyson bod brechlynnau COVID-19 yn rhoi lefelau uchel o amddiffyniad rhag salwch clinigol ac, yn fwy na dim, rhag canlyniadau salwch difrifol fel cyfnodau yn yr ysbyty a marwolaethau. Mae sawl astudiaeth o effeithiolrwydd brechu wedi'u cynnal yn y DU ac maent yn dangos bod gan ddau ddos o frechlyn effeithiolrwydd o hyd at 95% o ran atal salwch difrifol gan gynnwys yr amrywiolyn Delta, gyda lefelau uwch o amddiffyniad rhag salwch difrifol, cyfnod yn yr ysbyty a marwolaeth<sup>1</sup>.

Gyda rhagor o hyder o ran cyflenwi brechlynnau, gallwn yn awr nodi'n gliriach ein huchelgeisiau ar gyfer hydref a gaeaf 2021, wrth i nifer y rhai sy'n cael cynnig brechlyn cyntaf, ail frechlyn, trydydd brechlyn a brechlyn atgyfnerthu gynyddu'n sylweddol eto.

Byddwn eto yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol hyn:

- **Ein blaenoriaethau** – rydym yn parhau i weithio tuag at y nod cyffredinol o frechu cynifer â phosibl mor gyflym â phosibl, gyda chyn lleied o wastraff â phosibl. Rydym wedi nodi yn y ddogfen hon ein huchelgeisiau o ran sut y byddwn yn cyflawni hyn.
- **Ein seilwaith brechu** – gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod ble i gael eu brechu ac y gallant gael mynediad at eu cynnig brechu. Symud i system archebu ddigidol hefyd i roi hyblygrwydd i bobl a sicrhau bod cynifer â phosibl yn derbyn y brechlyn.
- **Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen frechu** – rydym wedi ymrwymo i barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb yng Nghymru am gam nesaf y rhaglen frechu.

### Hynt ein gwaith hyd yma

Rydym wedi rhoi mwy na 4,612,000 o frechiadau COVID-19. Mae hyn yn golygu bod 92% o boblogaeth dros 16 oed Cymru wedi'u brechu gydag un dos, ac 85% gyda dau ddos. Mae ein rhaglen frechu wedi bod ymhlith y cyflymaf yn y byd ac mae'r cyfraddau derbyn wedi bod ymhlith yr uchaf hefyd.

**Byddai cymhwyso amcangyfrifon lechyd Cyhoeddus Lloegr i Gymru yn dangos bod y rhaglen frechu yn uniongyrchol o bosibl wedi osgoi tua 7,000 o farwolaethau a 10,000 o dderbyniadau i'r ysbyty.<sup>2</sup>**

Ar hyn o bryd, yn debyg i wledydd eraill, mae achosion cyffredinol o COVID-19 yn parhau i fod yn uchel ledled Cymru, gyda'r pwysau yn sgil COVID-19 ar y GIG yn cynyddu ar y cyfan.

<sup>1</sup> S1359\_VEEP\_Vaccine\_Effectiveness\_Table\_\_1\_.pdf (publishing.service.gov.uk) [www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/1017253/S1359\\_VEEP\\_Vaccine\\_Effectiveness\\_Table\\_\\_1\\_.pdf](http://www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1017253/S1359_VEEP_Vaccine_Effectiveness_Table__1_.pdf)

<sup>2</sup> COVID19- vaccine surveillance report – week 38 (publishing.service.gov.uk) [www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/1019992/Vaccine\\_surveillance\\_report\\_-\\_week\\_38.pdf](http://www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1019992/Vaccine_surveillance_report_-_week_38.pdf)

Ar 2 Hydref, amcangyfrifwyd bod gan 77% o bobl o bob oedran yng Nghymru ryw imiwnedd yn erbyn haint COVID-19. Mae'r amcangyfrif hwn yn tybio bod pobl yn cael imiwnedd drwy gael eu heintio â COVID-19, drwy gael eu brechu, neu'r ddau. Pe na byddai pobl wedi'u brechu, amcangyfrifir mai dim ond 41% o bobl o bob oedran fyddai â rhywfaint o imiwnedd, ac mae'n debygol na fyddai'r imiwnedd hwnnw'n para mor hir.<sup>3</sup>

Amcangyfrifir ar hyn o bryd bod rhaid i hyd at 90% o'r boblogaeth, wedi'u gwasgaru'n gyfartal ledled Cymru a'i holl oedrannau a grwpiau poblogaeth, fod ag imiwnedd i COVID-19 cyn y byddai effeithiau imiwnedd poblogaeth i'w gweld<sup>4</sup>.

Yn seiliedig ar y cyfraddau a welir ar hyn o bryd a'r tueddiadau presennol o ran y cyfyngiadau sydd ar waith<sup>5</sup>:

- Mae'r tebygolrwydd y bydd digwyddedd yn cyrraedd yn uwch na 500 fesul 100,000 rhwng 10 Hydref ac 16 Hydref yn uwch na 80% ar gyfer 5 o'r 22 o awdurdodau lleol<sup>6</sup>.
- Disgwylir y bydd nifer y marwolaethau y diwrnod yn gostwng i tua 5 y diwrnod dros y tair wythnos nesaf<sup>7</sup>.
- Disgwylir y bydd derbyniadau i'r ysbyty y diwrnod yn gostwng i tua 10 i 40 y diwrnod dros y tair wythnos nesaf<sup>8</sup>.

Nid rhagolygon na rhagfynegiadau yw'r rhain, ond amcanestyniadau fel y gallwn dargedu ein hymdrechion, gan gynnwys effaith brechu, wrth inni symud ymlaen. Fodd bynnag, ni all yr amcanestyniadau hyn ystyried tueddiadau

ymddygiad nac unrhyw gynnydd mewn trosglwyddiad o ganlyniad i amrywiolion newydd a allai beryglu effeithiolrwydd y brechlynnau a ddefnyddiwn.

Mae'r Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE)<sup>9</sup> wedi canfod bod effeithiolrwydd dau ddos o'r brechlyn rhwng 80% a 90% o ran atal salwch symptomatig COVID-19 gyda'r amrywiolyn Delta, gyda lefelau uwch o amddiffyniad rhag salwch difrifol gan gynnwys cyfnod yn yr ysbyty a marwolaeth. Mae astudiaethau cynharach wedi dangos bod modd canfod gwrthgyrff am o leiaf 6 mis ac mae'n debygol iawn y gellid eu canfod am 8 mis neu ragor<sup>10</sup>. Dangosodd astudiaeth SIREN o weithwyr gofal iechyd bod hanes blaenorol o haint COVID-19 yn golygu bod y risg o heintiad 84% yn is, gyda'r effaith amddiffynnol i'w gweld 7 mis ar ôl yr haint cyntaf<sup>11</sup>. Dangosodd astudiaeth Vivaldi o breswylwyr a staff cartrefi gofal bod imiwnedd naturiol i COVID-19 yn gostwng y risg o ailheintiad yn sylweddol am tua 10 mis yn dilyn yr haint cyntaf<sup>12</sup>.

Mae astudiaethau mwy diweddar gan lechyd Cyhoeddus Cymru, lechyd Cyhoeddus Lloegr ac Israel wedi ymchwilio i effeithiolrwydd brechu yn gwanhau mewn cam cynharach. Fodd bynnag, mae brechu yn parhau i fod yn effeithiol iawn o ran osgoi cyfnodau yn yr ysbyty a marwolaethau ar ôl 20 wythnos<sup>13</sup> ar ôl yr ail ddos o frechlyn COVID-19.

Wrth inni barhau i ddysgu rhagor am y feirws, ei amrywiolion a pha mor effeithiol yw brechlynnau, mae wedi dod yn fwyfwy clir bod y gwaith o reoli'r feirws yn debygol o fod yn her hirdymor.

3 Adroddiad ar sefyllfa COVID30 :19- Medi 2021 | LLYW.CYMRU sleid 9 [www.llyw.cymru/adroddiad-sefyllfa-covid-30-19-medi2021](http://www.llyw.cymru/adroddiad-sefyllfa-covid-30-19-medi2021)

4 Adroddiad ar sefyllfa COVID30 :19- Medi 2021 | LLYW.CYMRU sleid 9 [www.llyw.cymru/adroddiad-sefyllfa-covid-30-19-medi2021](http://www.llyw.cymru/adroddiad-sefyllfa-covid-30-19-medi2021)

5 Adroddiad ar sefyllfa COVID30 :19- Medi 2021 | LLYW.CYMRU sleid 9 [www.llyw.cymru/adroddiad-sefyllfa-covid-30-19-medi2021](http://www.llyw.cymru/adroddiad-sefyllfa-covid-30-19-medi2021)

6 Ffynhonnell: Coleg Imperial Llundain

7 Ffynhonnell: Amcanestyniadau tymor canolig wedi'u modelu, SAGE/SPI-M, 14 Medi

8 Ffynhonnell: Amcanestyniadau tymor canolig wedi'u modelu, SAGE/SPI-M, 14 Medi

9 S1359\_VEEP\_Vaccine\_Effectiveness\_Table\_\_1\_.pdf (publishing.service.gov.uk) [www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/1017253/S1359\\_VEEP\\_Vaccine\\_Effectiveness\\_Table\\_\\_1\\_.pdf](http://www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1017253/S1359_VEEP_Vaccine_Effectiveness_Table__1_.pdf)

10 NERVTAG: Immunity certification update, 4 February 2021 – GOV.UK (www.gov.uk) [www.gov.uk/government/publications/nervtag-immunity-certification-update-4-february2021/nervtag-immunity-certification-update-4-february#2021-fn:24](http://www.gov.uk/government/publications/nervtag-immunity-certification-update-4-february2021/nervtag-immunity-certification-update-4-february#2021-fn:24)

11 SARS-CoV2- infection rates of antibody-positive compared with antibody-negative health-care workers in England: a large, multicentre, prospective cohort study (SIREN) – The Lancet [www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS9-00675\(21\)6736-0140/fulltext](http://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS9-00675(21)6736-0140/fulltext)

12 Vivaldi 2: COVID19- reinfection in care homes study report – GOV.UK (www.gov.uk) [www.gov.uk/government/publications/vivaldi-2-coronavirus-covid-19-reinfections-in-care-homes-study-report/vivaldi-2-covid-19-reinfection-in-care-homes-study-report](http://www.gov.uk/government/publications/vivaldi-2-coronavirus-covid-19-reinfections-in-care-homes-study-report/vivaldi-2-covid-19-reinfection-in-care-homes-study-report)

13 PHE: Duration of protection of COVID19- vaccines against clinical disease, 9 September 2021 – GOV.UK (www.gov.uk)

[www.gov.uk/government/publications/phe-duration-of-protection-of-covid-19-vaccines-against-clinical-disease-9-september2021](http://www.gov.uk/government/publications/phe-duration-of-protection-of-covid-19-vaccines-against-clinical-disease-9-september2021)

## ADRAN 3 – Ein blaenoriaethau ar gyfer yr hydref a'r gaeaf

Mae'r cyd-destun presennol, trosglwyddadwyedd yr amrywiolyn Delta a thystiolaeth bod imiwneidd yn gwanhau ymysg y bobl hynaf a'r rhai mwyaf agored i niwed, yn golygu bod cyflymder yn parhau i fod yn bwysig.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'n saith bwrdd iechyd dros fisoedd yr haf i gynllunio'r cam nesaf hwn, gan dybio y byddai angen brechlyn atgyfnerthu yn yr hydref i ddiogelu'r bobl fwyaf agored i niwed, pobl hŷn a staff rheng flaen. Gofynnwyd hefyd iddynt gynllunio ar gyfer y posibilrwydd o frechu plant a phobl ifanc 12 oed a hŷn.

Fel rhan o'r gwaith cynllunio hwn, mae'r byrddau iechyd wedi gorfod ystyried eu gweithlu, gan sicrhau bod gofynion hyfforddi'n cael eu bodloni, canllawiau gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu a chanllawiau eraill, logisteg deunyddiau traul ar gyfer brechu a chyfarpar diogelu personol, yn ogystal â'r seilwaith ategol sy'n ofynnol i gyflawni'r cam nesaf hwn. Roedd rhaid i'w gwaith cynllunio ystyried y ffyrdd gorau o ddiwallu anghenion eu poblogaeth leol.

Mae hwn yn parhau i fod yn ddull a ddefnyddir ar draws GIG Cymru, gyda Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio'n agos ar bob agwedd feddygol a thechnegol a phob agwedd ar iechyd y cyhoedd.

Bydd Cydwasanaethau GIG Cymru, Gwasanaeth Gwaed Cymru a Gwasanaeth Negesydd Cymru yn parhau i fod yn hanfodol mewn perthynas â logisteg a dosbarthiad. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru, System Imiwneiddio Cymru, yn parhau i gefnogi a rhoi sail i ymdrechion pob bwrdd iechyd, gan alluogi gwyliadwriaeth a thracio fferyllol.

### Blaenoriaethau

Bydd angen i Raglen Frechu COVID-19 Cymru gael ei chyflawni ochr yn ochr â rhaglenni brechu pwysig eraill fel rhai ar gyfer y fflw tymhorol a rhaglenni dal i fyny ar gyfer imiwneiddio plant oedran ysgol wrth i'r hydref nesáu. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n byrddau iechyd ar yr agweddau hyn, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol.

## Brechu rhag COVID-19 – yr hydref a'r gaeaf

Brechu'r rhai mwyaf agored i niwed

Brechu plant a phobl ifanc

Brechriad atgyfnerthu

Peidio â gadael neb ar ôl

System archebu ddigidol

Gwybodaeth y gellir ymddiried ynddi

## Brechu'r rhai mwyaf agored i niwed

Gyda rhai unigolion sy'n ddifrifol imiwnoataliedig oherwydd cyflyrau iechyd sydd ganddynt eisoes neu driniaeth feddygol, mae'n bosibl na fyddant yn creu ymateb imiwnyddol llawn i frechlyn COVID-19. Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu wedi cynghori<sup>14</sup> eu bod yn cael cynnig trydydd prif dds cyn cael dos atgyfnerthu yn ddiweddarach. Rydym wedi nodi'r unigolion hyn ac rydym yn gweithio gyda'u clinigwyr i sicrhau eu bod yn cael cynnig y brechlyn yn ystod cyfnodau lle bydd ganddynt y lefel uchaf o imiwnedd (pan fo hynny'n bosibl), pan fyddant yn fwy tebygol o gynhyrchu gwell ymatebion imiwnyddol. Yn ddelfrydol, dylai'r trydydd prif dds gael ei roi o leiaf 8 wythnos ar ôl yr ail dds, gyda sylw arbennig yn cael ei roi i therapïau atal imiwnedd presennol neu rai sydd wedi'u cynllunio.

### Ein Nod

Bydd pob unigolyn y nodir ei fod yn ddifrifol imiwnoataliedig, fel y nodir gan gyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu, yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer apwyntiad brys ar yr adeg orau iddynt.

## Brechu plant a phobl ifanc

Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu wedi cynghori<sup>15</sup> hefyd y dylai plant a phobl ifanc dros 12 oed sydd â chyflyrau iechyd penodol sy'n bodoli eisoes gael cynnig amserlen 2 brif dds oni bai bod yr unigolyn yn ddifrifol imiwnoataliedig, ac yna byddai amserlen 3 prif dds yn cael ei chynghori, yn unol â chynghor diweddaraf y Cyd-bwyllgor ar ddsau trydydd prif frechlyn. Rydym yn awr yn cynnig yr amserlen hon i blant cymwys.

Rhoddodd Prif Swyddogion Meddygol y DU gyngor<sup>16</sup> i bob llywodraeth briodol yn y DU i gynnig brechlyn i bawb rhwng 12 a 15 oed. Rhoddwyd yr argymhelliad hwn ar ôl ystyriaeth ofalus, seiliedig ar fewnbwn gan uwch-glinigwyr annibynnol ac iechyd cyhoeddus o bob rhan o'r DU. Cynghorodd<sup>17</sup> y Cyd-bwyllgor hefyd bod manteision uniongyrchol brechu o ran iechyd fymryn yn uwch na'r niwed hysbys posibl i'r grŵp oedran hwn. Ystyriodd y Prif Swyddogion Meddygol iechyd meddwl plant a phobl ifanc a sut y byddai hyn yn tarfu ar addysg.

Derbyniodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr argymhelliad ac mae'r grŵp hwn yn cael cynnig dos cyntaf o frechlyn COVID-19 Pfizer-BioNTech. Mae'r gwaith o frechu pobl ifanc rhwng 12 a 15 oed wedi cyflymu erbyn hyn, gyda'r adborth gan ganolfannau brechu yn gadarnhaol iawn.

Nid yw'r brechlyn yn orfodol a gall pobl ddewis a ydynt am gael y brechlyn neu beidio. Mae gwbyodaeth briodol i oedran ar gael i blant a phobl ifanc a'u rhieni er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniad ynghylch cael eu brechu. Mae'r wybodaeth hon wedi'i hatodi i'r llythyr apwyntiadau a'i rhannu gan ysgolion drwy e-bost/negeseuon testun/ cyfryngau cymdeithasol i ddisgyblion a rhieni. Mae'n bwysig bod plant a rhieni yn cael amser i ystyried yr wybodaeth a chael y drafodaeth â'i gilydd cyn penderfynu ynghylch y brechlyn.

Mae gennym fodel cyflawni cyfunol a bydd pob bwrdd iechyd, yn y lle cyntaf, yn gwahodd y grŵp oedran i ganolfannau brechu, gyda rhai ardaloedd hefyd yn darparu brechiadau mewn ysgolion arbennig. Cryfder y model hwn yw ei fod yn seiliedig ar wybodaeth leol a'i fod yn hyblyg er mwyn gallu newid yn ddibynnol ar yr amgylchiadau.

14 [www.gov.uk/government/publications/third-primary-covid-19-vaccine-dose-for-people-who-are-immunosuppressed-jcvi-advice](https://www.gov.uk/government/publications/third-primary-covid-19-vaccine-dose-for-people-who-are-immunosuppressed-jcvi-advice)

15 [www.gov.uk/government/publications/covid-19-vaccination-of-children-and-young-people-aged-12-to-17-years-jcvi-statement](https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-vaccination-of-children-and-young-people-aged-12-to-17-years-jcvi-statement)

16 Universal vaccination of children and young people aged 12 to 15 years against COVID19 - GOV.UK ([www.gov.uk](https://www.gov.uk))

[www.gov.uk/government/publications/universal-vaccination-of-children-and-young-people-aged-12-to-15-years-against-covid19](https://www.gov.uk/government/publications/universal-vaccination-of-children-and-young-people-aged-12-to-15-years-against-covid19)

17 JCVI statement on COVID19- vaccination of children aged 12 to 15 years: 3 September 2021 - GOV.UK ([www.gov.uk](https://www.gov.uk)) [www.gov.uk/government/publications/jcvi-statement-september-2021-covid-19-vaccination-of-children-aged-12-to-15-years/jcvi-statement-on-covid-19-vaccination-of-children-aged-12-to-15-years-3-september2021](https://www.gov.uk/government/publications/jcvi-statement-september-2021-covid-19-vaccination-of-children-aged-12-to-15-years/jcvi-statement-on-covid-19-vaccination-of-children-aged-12-to-15-years-3-september2021)



Mae pob person ifanc 16 ac 17 oed yng Nghymru wedi cael cynnig brechlyn (1 dos yn unig yn ôl cyngor y Cyd-bwyllgor<sup>18</sup>) a hyd yma mae mwy na 71% wedi derbyn y cynnig. Pan fyddant 3 mis i ffwrdd o'u pen blwydd yn 18 oed, byddant yn cael cynnig eu hail ddos.

Bydd y Cyd-bwyllgor yn ystyried ymhellach, pan fydd ganddynt ragor o ganfyddiadau o dreialon, a fydd plant a phobl ifanc sydd ar hyn o bryd ond yn gymwys ar gyfer un dos, yn cael cynnig ail ddos.

### Ein Nod

Byddwn yn cynnig y brechlyn i bob person ifanc 12-15 oed erbyn 1 Tachwedd a bydd y rhan fwyaf o'r rhai sy'n derbyn y cynnig yn cael eu brechu ym mis Hydref.

## Brechiadau atgyfnerthu

Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu<sup>19</sup> wedi cynghori y dylai unigolion a gafodd frechiad yng nghanam 1 y rhaglen frechu COVID-19 (grwpiau blaenoriaeth 1-9) gael cynnig brechlyn atgyfnerthu COVID-19, a hynny'n ddim cynt na chwe mis ar ôl eu hail ddos. Mae hyn yn cynnwys:

- y rhai sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl i oedolion hŷn
- pob oedolyn 50 oed neu hŷn
- gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen
- pawb rhwng 16 a 49 oed sydd â chyflyrau iechyd sy'n bodoli'n barod, sy'n golygu bod mwy o risg iddynt gael COVID-19 difrifol (fel y nodir yn y Llyfr Gwyrdd), ac oedolion sy'n ofalwyr i eraill
- oedolion sy'n cael cysylltiad ag unigolion imiwnoataliedig yn eu cartrefi.

Mae'r Cyd-bwyllgor wedi cynghori y dylid defnyddio brechlynnau mRNA (Pfizer-BioNTech a Moderna) ar gyfer y rhaglen atgyfnerthu, ni waeth pa frechlyn a roddwyd fel prif ddos. Mae hyn yn unol â'r brechlynnau sydd wedi'u caffael i'w defnyddio ac rydym wedi cael cadarnhad bod digon o gyflenwad i gynnwys y garfan sy'n gymwys i gael y brechlyn atgyfnerthu yng Nghymru. O ran y nifer bach o unigolion nad ydynt efallai'n gallu cael brechlyn mRNA, oherwydd alergedd er enghraifft, cynigir dewis arall effeithiol yn ei le.

Dechreuwyd cynnig apwyntiadau ar gyfer y rhaglen atgyfnerthu yn ystod yr wythnos oedd yn dechrau ar 20 Medi. Mae'r holl fyrddau iechyd bellach yn brechu preswylwyr a staff cartrefi gofal ac yn gwahodd eraill sy'n gymwys i ganolfannau brechu.

Er ein bod wedi cynllunio'r capasiti i roi'r rhaglen atgyfnerthu ar waith, mae'n bwysig cofio ein bod yn agosáu at gyfnod hynod anarferol yn ystod yr hydref a gaeaf i'r GIG yng Nghymru. Nid ydym wedi wynebu cyfnod fel hwn erioed o'r blaen, a gallai effeithiau'r fflw a feirysau anadlol eraill sy'n cylchredeg yn y gymuned effeithio ar ein lefelau staffio ar wahanol adegau. Byddwn yn cadw llygad ar hyn yn gyson ac yn cyflwyno mesurau priodol yn ôl yr angen.

Mae nifer y gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi manteisio ar y cynnig i gael eu brechu wedi bod yn uchel drwyddi draw, gyda dros 90% o'r staff mewn cartrefi gofal i oedolion hŷn wedi cael y ddau ddos. Gan fod y cyfraddau brechu rhag COVID-19 yn parhau ar lefel mor uchel ymysg y grwpiau hyn, nid ydym yn ystyried mesurau gorfodi.

Bydd y Cyd-bwyllgor yn ystyried ymhellach, pan fydd ganddynt fwy o ganfyddiadau ar sail treialon, a ddylid cynnig dos atgyfnerthu i unigolion o dan 50 oed.

18 JCVI statement on COVID-19- vaccination of children and young people aged 12 to 17 years: 4 August 2021 – GOV.UK ([www.gov.uk/government/publications/jcvi-statement-august-2021-covid-19-vaccination-of-children-and-young-people-aged-12-to-17-years/jcvi-statement-on-covid-19-vaccination-of-children-and-young-people-aged-12-to-17-years-4-august2021](https://www.gov.uk/government/publications/jcvi-statement-august-2021-covid-19-vaccination-of-children-and-young-people-aged-12-to-17-years/jcvi-statement-on-covid-19-vaccination-of-children-and-young-people-aged-12-to-17-years-4-august2021))

19 JCVI statement, September 2021: COVID-19 booster vaccine programme for winter 2021 to 2022 – GOV.UK ([www.gov.uk/government/publications/jcvi-statement-september-2021-covid-19-booster-vaccine-programme-for-winter-2021-to-2022](https://www.gov.uk/government/publications/jcvi-statement-september-2021-covid-19-booster-vaccine-programme-for-winter-2021-to-2022))



## Rhoi'r brechlyn yr un pryd â brechlyn y fflw

Mae'r rhaglen frechu rhag y fflw wedi hen ddechrau erbyn hyn. Byddem yn annog pobl gymwys i gael eu brechiad fflw, ni waeth a ydynt yn gymwys am frechiad atgyfnerthu COVID-19 ai peidio. Mae'r risg yn fwy i'r rhai a heintir gyda'r fflw a COVID-19 ar yr un pryd.

Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â brechlyn y fflw ar gael yn [www.icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/brechlynffliw/](http://www.icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/brechlynffliw/)

Er y bydd y mwyafrif o bobl sy'n gymwys i gael brechlyn fflw am ddim drwy'r GIG yn gymwys hefyd i gael brechiad atgyfnerthu COVID-19, mae rhai gwahaniaethau bach gan fod y fflw a COVID-19 yn feirysau gwahanol. Mae hyn yn golygu bod argymhellion y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu ar bwyllyd gael y brechiadau ychydig yn wahanol. Er enghraifft, mae pawb sydd ag asthma sy'n defnyddio anadlydd steroid neu'n cymryd tabledi steroid yn rheolaidd yn gymwys ar gyfer brechlyn y fflw ond ar gyfer y rhaglen brechiadau atgyfnerthu bresennol, dim ond y rhai sydd ag asthma nad yw'n cael ei reoli'n dda sy'n gofyn am ddefnydd parhaus neu fynych o steroidau systemig, neu'r rhai a gafodd ddirywiad blaenorol yn eu cyflwr a arweiniodd at gael eu derbyn i'r ysbyty, sy'n gymwys.

Bydd plant a phobl ifanc yn y blynyddoedd ysgol o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 11 yn cael cynnig y chwistrellydd trwynol rhag y fflw mewn ysgolion tra bydd pobl ifanc dros 12 mlwydd oed yn cael cynnig brechiad COVID-19 mewn canolfan frechu yn bennaf. Mae plant dwy a thair blwydd oed yn gymwys ar gyfer y chwistrellydd trwynol rhag y fflw.

Gall pob carfan sy'n gymwys am frechlyn y fflw gael eu brechu unrhyw bryd yn ystod y rhaglen frechu rhag y fflw. Yn y cyfamser, cyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu yw bod brechiadau atgyfnerthu COVID-19 yn cael eu darparu mewn camau, gan ddechrau gyda'r rhai sydd fwyaf tebygol o fynd yn ddifrifol wael gyda COVID-19.

Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu hefyd wedi cynghori bod rhoi'r ddau frechlyn yr un pryd yn ddiogel ac y dylid gwneud hynny os yw'n gyfleus o ran y trefniadau gweithredol. Fodd bynnag, fe wnaethant nodi'n glir hefyd na ddylai rhoi'r ddau frechiad yr un pryd arafu na tharfu ar y rhagen flynyddol i frechu rhag y fflw nac ar y broses o gyflwyno'r rhaglen atgyfnerthu. O ran Cymru, bydd hyn yn golygu mai dim ond mewn cartrefi gofal ac wrth frechu staff iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen y bydd y ddau frechiad yn debygol o gael eu rhoi yr un pryd.

### Ein Nod

Erbyn 31 Rhagfyr, byddwn wedi cynnig apwyntiad brechu i'r mwyafrif o'r rhai sy'n gymwys i gael brechiad atgyfnerthu.

Bydd preswylwyr cartrefi gofal sy'n gymwys yn cael cynnig eu brechiad erbyn 1 Tachwedd.

## Peidio â gadael neb ar ôl

Mae brechu teg yn dal i fod yn un o egwyddorion allweddol y strategaeth hon.

Mae'n bwysig ein bod yn cymryd camau ar y cyd i hyrwyddo defnydd teg o'r brechlyn COVID-19 i fynd i'r afael ag unrhyw effaith anghymesur y gallai COVID-19 ei chael ar grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol, megis pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, pobl ag anableddau, a phobl sy'n byw mewn cartrefi sydd o dan anfantaes economaidd neu sy'n ddifreintiedig mewn ffyrdd eraill.

Mae'r ymrwymiad i sicrhau bod pobl yng Nghymru yn cael cyfle teg i fanteisio ar y cynnig i gael y brechlyn wedi'i nodi yn ein Strategaeth Brechu Teg:

[www.llyw.cymru/covid-19-strategaeth-brechu-teg-i-gymru](http://www.llyw.cymru/covid-19-strategaeth-brechu-teg-i-gymru)

Mae ein Pwyllgor Brechu Teg, y byrddau iechyd ac ystod eang o bartneriaid gwerthfawr yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gwybodaeth gywir y gellir ymddiried ynnddi ar gael. Er enghraifft, cynhaliwyd amryw o ddiwyddiadau ymgysylltu, cynhaliwyd gweminarau ar gyfer cymunedau ffydd, a chynhyrchwyd deunyddiau mewn nifer o wahanol ieithoedd. Wrth wneud hyn, rydym am sicrhau y gall unrhyw un sy'n dal heb ei frechu wneud dewis am y brechlyn ar sail gwybodaeth.

Rydym yn gwybod bod y bylchau mwyaf yn y nifer sydd wedi'u brechu rhwng grwpiau ethnig ymysg oedolion 30-39 mlwydd oed. Mae gwahaniaeth hefyd yn y nifer sydd wedi'u brechu rhwng y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru<sup>20</sup>. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i wella'r nifer sydd wedi'u brechu yn y grwpiau hyn.

Rydym yn parhau i fynd i'r afael â phryderon ynghylch mynediad at y brechlyn. Gan weithio gyda phartneriaid, mae'r byrddau iechyd wedi bod yn cynnig brechiad drwy gynnal llawer o glinigau dros dro, clinigau symudol a chlinigau allgymorth – a hynny'n aml mewn canolfannau ffydd neu ganolfannau diwylliannol ym mhob cwr o Gymru. Mae canolfannau brechu ledled Cymru yn cynnig oriau estynedig gyda'r nos ac maent ar agor ar y penwythnos, gan gynnig gwasanaeth hyblyg. Mae mentrau cludo neu deithio ar waith mewn sawl ardal. Mae gwasanaethau allgymorth, clinigau dros dro a gwasanaethau symudol yn mynd â'r brechlyn i bobl mewn cymunedau na fyddent fel arall efallai wedi derbyn eu cynnig o frechiad.

Nid yw byth yn rhy hwyr i gael y brechlyn. Byddwn yn bwrw ymlaen â chamau wedi'u targedu ac yn parhau i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal rhai pobl rhag manteisio ar y cynnig i gael brechlyn.

Byddwn hefyd yn annog pobl a ddylai fod wedi cael eu hail ddos erbyn hyn i ddod i apwyntiad er mwyn iddynt gael yr amddiffyniad llawnaf. Bydd angen i'r carfannau iau, sy'n cael eu brechu'n hwyrach yng nghanam 2, gael eu hail frechiad yn ystod cam 3.

Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu wedi cynghori y dylid cynnig brechlynnau COVID-19 i fenywod beichiog ar yr un pryd â phobl o'r un grŵp oedran neu risg glinigol. Nid yw tua dwy o bob tair menyw sy'n profi'n bositif ar gyfer COVID-19 yn ystod bechiogrwydd yn datblygu unrhyw symptomau o gwbl. Fodd bynnag, mae rhai menywod beichiog yn mynd yn ddifrifol wael ac yn cael eu derbyn i'r ysbyty gyda COVID-19, yn enwedig os oes ganddynt gyflyrau meddygol sy'n bodoli eisoes. Yng nghyfnodau diweddarach bechiogrwydd, mae menywod yn wynebu risg uwch o fynd yn ddifrifol wael gyda COVID-19. Os bydd hyn yn digwydd, mae hi oddeutu tair gwaith yn fwy tebygol y bydd y babi'n cael ei eni'n gynamserol, sy'n gallu effeithio ar ei iechyd hirdymor.

Bu cynnydd yn nifer y menywod beichiog heb eu brechu sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty am eu bod yn dioddef o salwch difrifol oherwydd COVID-19. Gall y brechlyn ddiogelu mamau a babanod rhag niwed y gellir ei osgoi. Gan fod tystiolaeth gynyddol y gallai menywod beichiog wynebu risg o salwch difrifol oherwydd COVID-19, o'u cymharu â gweddill y boblogaeth, yn enwedig yn ystod tri mis cyntaf y bechiogrwydd, argymhellodd Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd mai brechiad yw un o'r ffyrdd gorau o amddiffyn rhag haint ddifrifol. Mae'r Prif Swyddog Meddygol a'r Prif Swyddog Nyrsio wedi apelio ar fenywod beichiog i dderbyn y cynnig i gael brechlyn COVID-19, ac rydym wedi bod yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r byrddau iechyd i rannu gwybodaeth â menywod beichiog a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Nid oes tystiolaeth y bydd y brechlynnau COVID-19 yn effeithio ar ffrwythlondeb na'r siawns o feichiogi.

Er ein bod wedi gweld y bylchau o ran tegwch yn lleihau dros amser, mae mwy i'w wneud o hyd.

#### Ein Nod

Byddwn yn parhau i weithio i sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl, ac yn sicrhau bod cymaint o bobl ag sy'n bosibl yn cael eu brechu yng Nghymru er mwyn diogelu unigolion, eu teuluoedd a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt.

## Pàs Brechu Covid

O 11 Hydref, bydd angen pàs COVID ar oedolion 18 oed a hŷn i fynd i mewn i safleoedd penodol yng Nghymru megis clybiau nos a digwyddiadau dan do i fwy na 500 o bobl. Mae cael eich brechu'n llawn yn un o'r ffyrdd y gallwch gael pàs COVID. Mae cael eich brechu'n llawn hefyd yn golygu y gallwch gael pàs COVID i'w ddefnyddio wrth deithio'n rhyngwladol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma. Cael eich Pàs Covid y GIG | LLYW.CYMRU [www.llyw.cymru/cael-eich-pas-covid-y-gig#section-73755](http://www.llyw.cymru/cael-eich-pas-covid-y-gig#section-73755)

## System archebu ddigidol

Mae creu seilwaith digidol pwrpasol a chadarn ar gyfer trefnu apwyntiadau, cofnodi brechiadau, ac adrodd ar weithgarwch brechu yn hanfodol fel sylfaen i'r cam nesaf hwn, wrth inni barhau i geisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl ddod i gael eu brechu.

Bydd hyn yn adeiladu ar ein profiad o'r dull presennol ac yn galluogi'r cyhoedd i newid eu hapwyntiad brechu os oes angen, ac i archebu eu hapwyntiadau eu hunain.

Nod hyn yw diwallu anghenion y rhaglen frechu a rhaglenni brechu eraill yn y dyfodol, a fydd yn parhau ymhell ar ôl i'r rhaglen hon gael ei chwblhau.

Yn gyntaf, byddwn yn lansio gwasanaeth negeseuon testun sy'n galluogi pobl i newid eu hapwyntiad drwy neges destun, a bydd gwasanaeth ar lein yn dilyn. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Rydym am ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl gael apwyntiadau ar adeg ac mewn lle sy'n addas i'w ffordd o fyw.

### Ein Nod

Cyflwyno gwasanaeth negeseuon testun ym mis Tachwedd i helpu pobl i aildrefnu apwyntiadau.

Cyflwyno system archebu ddigidol ar lein ym mis Ionawr i helpu i drefnu apwyntiadau.

## Cyflenwadau

Yn amodol ar barhad y cyflenwadau, byddwn yn sicrhau bod digon o frechlynnau ar gyfer rhoi prif ddos i blant 12 i 17 oed, unrhyw ail ddosau sydd eu hangen, trydydd prif ddos a dos atgyfnerthu, ac ar gyfer brechu unrhyw un sydd heb fanteisio ar y cynnig eto. Byddwn yn parhau i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o wastraff, gan sicrhau bod ein rhaglen mor effeithlon â phosibl a'n bod yn defnyddio pob dos o frechlyn sydd ar gael.

## ADRAN 4 – Seilwaith: ble a sut mae cael eich brechu

### Y model darparu brechiadau wrth inni symud i'r hydref a'r gaeaf

Mae'r model darparu brechiadau COVID-19 a grëwyd gan GIG Cymru wedi bod yn hynod effeithiol hyd yma. Mae'n fodel cyfunol sy'n darparu cymysgedd o safleoedd er mwyn i'r rhaglen allu cael ei rhoi ar waith mor gyflym â phosibl, sicrhau diogelwch, diwallu anghenion y nodweddion sy'n perthyn i'r gwahanol frechlynnau, cynnig brechiadau mewn lleoliadau sydd mor gyfleus â phosibl a gwneud yn siŵr ein bod yn cynnig mynediad teg ar draws y wlad ac ym mhob cymuned.

Wrth inni symud i'r hydref a'r gaeaf, byddwn yn parhau i ddefnyddio'r model cyfunol hwn:

- **Canolfannau brechu** gall y rhain frechu llawer o bobl yn gyflym ac yn ddiogel. Erbyn hyn, mae cyfuniad o ganolfannau brechu mawr a chanolfannau llai. Mae'r byrddau iechyd wedi cynllunio eu canolfannau brechu i amrywio eu horiau agor, ac i agor gyda'r nos ac ar benwythnosau er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o o darfu ar addysg pobl ifanc a chymaint o hyblygrwydd â phosibl wrth i oedolion ddychwelyd i'r gwaith.
- **Gofal sylfaenol** mae'r gwasanaethau wedi gwneud cyfraniad hanfodol drwy gydol rhaglen frechu COVID-19. Bob blwyddyn mae practisau meddygon teulu yng Nghymru yn rhoi cannoedd o filoedd o frechiadau ffliw tymhorol mewn ychydig fisoedd yn unig. Maent yn arbenigwyr ar gynnal rhaglenni imiwneiddio ac mae'r seilwaith ganddynt yn barod i wneud hynny. Bydd rhai yn parhau i gynorthwyo'r broses o roi brechiadau COVID-19 i bobl sy'n agored i niwed mewn cartrefi gofal a bydd rhai'n ymwneud â brechu yn ardaloedd mwy anghysbell Cymru, lle y gallai fod yn fwy anodd cyrraedd canolfan frechu. Fodd bynnag, bydd brechiadau COVID-19 yn parhau i gael eu darparu'n bennaf mewn canolfannau brechu, sy'n golygu mai gwasanaeth gofal sylfaenol fydd y cyswllt gofal cyntaf i fwy na 90% bobl o ran eu cyswllt â'r GIG yng Nghymru.

- **Ysgolion** – Y bwriad ar hyn o bryd yw cynnig brechiad i blant a phobl ifanc mewn ysgolion arbennig yn unig, os oes ganddynt gyflyrau iechyd penodol sy'n bodoli'n barod. Mae rhai plant sy'n mynychu'r ysgolion hyn yn fwy cyfforddus ac yn llai gofidus os ydynt yn cael y brechlyn mewn amgylchedd cyfarwydd gyda phobl y maent yn eu hadnabod. Niferoedd bach fydd y rhain. Bydd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn cael eu brechlyn mewn canolfan frechu.
- **Unedau symudol** – Rydym yn gwybod y gall fod yn anodd i rai pobl sydd heb gar, sy'n gweithio oriau gwahanol, sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell neu sydd â chyfrifoldebau gofalu. Er mwyn gallu cyrraedd cymunedau a sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl, mae gennym unedau symudol sy'n golygu y gellir cynnal clinigau brechu dros dro. Mae'r model hwn hefyd yn ein galluogi i fynd â'r brechlynnau i'n cartrefi gofal ac at ein poblogaeth hŷn cyn gynted â phosibl.
- **Y gweithlu** – Mae ein rhaglen frechu COVID-19 ar waith ers bron i flwyddyn ac mae ein holl dimau brechu yn brofiadol ac yn gymwysedig. Bydd y byrddau iechyd yn gwneud y gorau o'u modelau o ran recriwtio a defnyddio'r gweithlu dros gyfnod yr hydref a'r gaeaf.

## ADRAN 5 – Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen frechu

Rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid yn y GIG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod gwybodaeth ffeithiol ar gael yn hawdd am y brechlyn. Mae'n hanfodol bod pobl yn teimlo eu bod yn cael gwybod am effeithiau'r brechlyn, a ydynt yn gymwys i'w gael, a sut i gael gafae arno pan gânt eu galw.

Tan yn ddiweddar, roedd cyfraddau brechu'r DU a chyfraddau'r pedair gwlad yn cael eu cyfrifo yn ôl canran y boblogaeth 16 oed a hŷn a oedd wedi'i brechu. Gan ein bod bellach yn brechu pobl ifanc 12-15 oed, gwneir y cyfrifo ar sail canran y boblogaeth 12 oed a hŷn.

Er mwyn gallu cymharu a chynnal cysondeb rhwng gwledydd y DU, ac oherwydd bod gwahanol systemau'n cael eu defnyddio, defnyddir amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol i gyfrifo cyfran y bobl sydd wedi cael dos cyntaf ac ail ddos.

Mae'n bwysig nodi hefyd mai'r cynnig cyffredinol ar gyfer pobl ifanc 12-17 oed yw dos cyntaf o'r brechlyn. Fodd bynnag, bydd y boblogaeth 12-17 oed gyfan yn cael ei chynnwys yn yr ail gyfrifiad ynghylch cyfradd dosau, er mai dim ond ar sail eithriad cyfyngedig y byddai rhywun o'r oed hwn yn cael cynnig ail frechiad ar hyn o bryd. Ond mae angen y categori i olrhain y rhai sy'n gymwys.

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i fod yn dryloyw ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb am hynt y gwaith. Byddwn yn parhau i wneud y canlynol:

- **Cyhoeddi data** ar nifer y bobl sydd wedi cael eu brechu. Cyhoeddir y rhain ar **Ddangosfwrdd Gwyliadwriaeth Gyflym COVID-19 Iechyd Cyhoeddus Cymru\***. Bydd hyn yn dangos cyfanswm y brechiadau a roddir, er y bydd y nifer gwirioneddol o bobl a frechwyd yn uwch oherwydd bod data'n cael eu hychwanegu'n barhaus<sup>21</sup>.

- Parhau i gyhoeddi **data wythnosol, manylach ar frechiadau** drwy ddangosfwrdd Gwyliadwriaeth Gyflym COVID-19 Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd hyn yn cynnwys data ar lefel byrddau iechyd lleol a chaiff ei ehangu i ymdrin â phynciau eraill wrth i fwy o ddata o ansawdd da ddod ar gael, megis data am frechiadau fesul carfan.
- Cyhoeddi **data ar y cyflenwad a'r stoc o frechlynnau** yng Nghymru, gan gynnwys yr hyn a gaiff ei wastraffu. [www.llyw.cymru/rhaglen-frechu-covid-19-stoc-dosbarthiad](http://www.llyw.cymru/rhaglen-frechu-covid-19-stoc-dosbarthiad)
- Cyhoeddi **Datganiadau Gweinidogol** sy'n nodi pan fydd datblygiadau newydd neu newidiadau i'r rhaglen frechu.
- Cyhoeddi **Diweddariadau ar Frechu** bob pythefnos [www.llyw.cymru/rhaglen-frechu-covid-19-diweddariadau](http://www.llyw.cymru/rhaglen-frechu-covid-19-diweddariadau)

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:

- Adroddiadau ar Sefyllfa COVID-19 [www.llyw.cymru/adroddiadau-sefyllfaol-covid-19](http://www.llyw.cymru/adroddiadau-sefyllfaol-covid-19)
- Cyngor gan y Gell Cyngor Technegol [www.llyw.cymru/y-gell-cyngor-technegol](http://www.llyw.cymru/y-gell-cyngor-technegol)
- Adroddiadau Ystadegol ar COVID-19 [www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil](http://www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil)
- Dangosfwrdd y DU sy'n cynnwys data gan y pedair gwlad [www.coronavirus.data.gov.uk/details/vaccinations](http://www.coronavirus.data.gov.uk/details/vaccinations)
- Blog y Prif Ystadegydd [www.digidoladata.blog.llyw.cymru/2021/09/22/diweddariad-gan-y-prif-ystadegydd-pa-gyfran-o-bobl-sydd-wedi-cael-eu-brechu-yng-nghymru/](http://www.digidoladata.blog.llyw.cymru/2021/09/22/diweddariad-gan-y-prif-ystadegydd-pa-gyfran-o-bobl-sydd-wedi-cael-eu-brechu-yng-nghymru/)

<sup>21</sup> [www.public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID19-virology-Public/Headlinesummary](http://www.public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID19-virology-Public/Headlinesummary)